

Rheoli Llygredd Amaethyddol

Taflen Wybodaeth – Mesurau Ionawr 2023

Daw ail gam y rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2023. Bydd rhai busnesau fferm yn gweld ychydig iawn o effaith neu ddim effaith o gwbl, a bydd busnesau eraill angen amser a chefnogaeth er mwyn gallu cydymffurfio. Bydd y dull gweithredu graddol yn rhoi amser i chi baratoi a gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Peidiwch â chynhyrfu - mae pob fferm yn wahanol, felly cymerwch yr amser i ddarllen y canllawiau sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn fanwl, cyn gwneud unrhyw ragdybiaethau am yr effaith ar eich busnes.

Mae cymorth ar gael gan Cyswllt Ffermio a'r Llinell Gymorth Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS.

Mewn ardaloedd a oedd wedi'u lleoli o fewn Parth Perygl Nitradau, nid oes dull gweithredu graddol ac mae'r holl reolau'n berthnasol o 1 Ebrill 2021.

Cynllunio rheoli maetholion

Defnyddir y Cynllun Rheoli Maetholion (NMP) i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, ond mae hefyd yn arf pwysig i reoli'r defnydd gorau posibl o wrteithiau nitrogen i'ch daliad a all wella twf cnydau, lleihau'r defnydd o wrtaith a weithgynhyrchwyd a lleihau'r risg o lygredd.

- Ni ddylai mewnbynnau gwrtaith fod yn fwy na therfynau cnydau penodedig.
- Ni ellir defnyddio mwy na 170kg/ha o nitrogen o dail da byw bob blwyddyn, ar gyfartaledd dros y daliad, naill ai wedi'i ysgarthu'n uniongyrchol gan yr anifail neu drwy wasgaru.
- Mae terfyn uchaf o 250kg/ha yn berthnasol i wasgaru tail organig ar unrhyw gae bob blwyddyn.
- Cofnodi mewnforio neu allforio tail organig.
- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu templedi ar gyfer cofnodi Cynlluniau Rheoli Maetholion; fodd bynnag, gallwch gadw eich cofnodion eich hun ar yr amod bod meini prawf y rheoliadau'n cael eu bodloni.
- Rhaid cadw copïau o Gynlluniau Rheoli Maetholion am o leiaf bum mlynedd a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio os gofynnir amdanynt.

Storio tail organig (ac eithrio slyri)

Rhaid storio tail organig (ac eithrio slyri); neu unrhyw sarn sydd wedi'i halogi ag unrhyw dail organig naill ai

- Mewn llestr
- Mewn adeilad dan do
- Ar arwyneb anhydraidd
- Mewn safle cae dros dro

Safleoedd caeau dros dro

Ni ddylid lleoli safleoedd caeau dros dro

- Mewn unrhyw safle unigol am fwy na 12 mis yn olynol neu'r un lle ag un a adeiladwyd o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf
- Mewn cae sy'n agored i lifogydd neu fynd yn ddwrlawn
- O fewn 10m i ddŵr wyneb neu ddraen daear, o fewn 30m i gwrs dŵr ar dir y nodwyd bod ganddo inclein sy'n fwy nag 20%, o fewn 50m i bistyll, ffynnon neu dwll turio.

Mapiau risg

Rhaid cynhyrchu mapiau risg a gellir eu cynllunio i'ch galluogi i gydymffurfio â mesurau eraill yn ogystal â'r Rheoliadau hyn. Rhaid i chi ddiweddarau'r map risg gydag unrhyw newidiadau a rhaid i chi gadw pob copi o'ch map risg, am o leiaf bum mlynedd.

Gallwch weld taflen ffeithiau Cyswllt Ffermio ar fapiau risg neu ganllawiau Llywodraeth Cymru i nodi'r rhestr lawn o nodweddion sydd eu hangen ar gyfer y map risg.

Rheoli gwasgariad gwartaith nitrogen

Rhaid i unrhyw berson sy'n gwasgaru gwartaith nitrogen wneud hynny mewn modd mor gywir â phosibl.

- Rhaid i offer gwasgaru slyri fod â thaflwybr gwasgaru isel sydd o dan 4 metr o'r ddaear.
- Gellir defnyddio offer gwasgaru gyda thaflwybr o fwy na 4 metr o'r ddaear ar dir sydd â risg isel o ddŵr ffo a lle mae'r offer yn gwasgaru o dan 2mm yr awr.

CYMORTH SYDD AR GAEL:

- Cyswllt Ffermio: www.llyw.cymru/cyswlltffermio
- Llinell Gymorth Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS:
01974 847000
- Gellir gweld canllawiau manwl ar wefan Llywodraeth Cymru:
www.llyw.cymru/rheoli-tir